# papur priordy

**I DAD Y TRUGAREDDAU I GYD**
**RHOWN FOLIANT, HOLL DRIGOLION BYD;**
**LLU’R NEF MOLIENNWCH, BAWB AR GÂN,**
**Y TAD A’R MAB A’R YSBRYD GLÂN.**

Thomas Ken (1637-1711) cyf. Howell Harris (1714-73)

*Caneuon Ffydd; 15*

***Gweler yr erthygl y tu mewn am y rheswm dros y dewis***

**Rhifyn 368**
**PAPUR GORFFENNAF / AWST 2023**

# Gair gan ein Gweinidog

## Heddwch Nain / Mam-gu

***MAE'R*** ddeiseb heddwch wedi dychwelyd i Gymru am y tro cyntaf ers iddi gael ei hanfon i'r Unol Daleithiau 100 mlynedd yn ôl.

Bu'r ddeiseb yn cael ei chadw a'i harddangos yn Amgueddfa Genedlaethol Hanes America, neu'r Smithsonian, ers 1923.



Cafodd ei harwyddo gan bron i 400,000 o fenywod a oedd yn galw ar yr Unol Daleithiau i ymuno â Chynghrair y Cenhedloedd.

Bydd y gwaith o ddigido'r ddeiseb nawr yn dechrau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.

Yn fuan ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf, trefnodd menywod yng Nghymru ymgyrch dros heddwch, gan alw ar America i ymuno ac arwain cynghrair newydd o genhedloedd.

Annie Hughes-Griffiths fu'n arwain yr ymgyrch honno, wrth i lofnodion gael eu casglu o ddrws i ddrws ar draws Cymru mewn cwta saith mis.



Arwyddodd 390,296 o fenywod y ddeiseb, a bu'n rhaid dylunio ac adeiladu cist arbennig i'w chludo i Washington DC.


Gadawodd **Annie Hughes-Griffiths**, Mary Ellis, Elined Prys a Gladys Thomas gyda'r gist ym 1923. Pan gyrhaeddodd y menywod, disgrifiodd gwasg Efrog Newydd y ddeiseb fel "un anferth, saith milltir o hyd".

Cafodd y merched groeso i'r Tŷ Gwyn lle cafwyd sicrwydd gan Lywydd

America ar y pryd, **Calvin Coolidge**, y byddai'r ddeiseb yn cael ei



chadw'n ddiogel yn Amgueddfa'r Smithsonian yn Washington DC - a dyna lle cafodd ei chadw yr holl amser. Eleni, rhyddhawyd y gist gan Amgueddfa’r Smithsonian a’i dychwelyd i Gymru.






***I GLYWED*** mwy am yr hanes rhyfeddol hwn dewch i’r Egin ar gyfer y Sul Sbesial lle bydd Catri Stephens yn sôn mwy am yr hanes. Dydd Sul, 9 Gorffennaf yw’r dyddiad am 2 o’r gloch.

**Gweddiwn**

Iôr, gwna fi’n offeryn dy hedd,
lle bo casineb dof â’th gariad di,
a lle bo dagrau gad im ddod â gwên,
cyfannu’r holl raniadau boed i mi.

O Arglwydd Dduw, na ad im geisio dim
gan eraill, eithr rhoddi boed i mi,
na foed im hawlio dim imi ‘n y byd
ond rhoi i eraill fyddo ’mraint o hyd.

Iôr, gwna fi’n offeryn dy hedd,
lle bo amheuaeth boed im ddangos ffydd,
a lle bo gofid dof â’th obaith di,
i d’wyllwch boed im ddod â golau ddydd.



**Amen**

*868 Caneuon Ffydd*

**YN DYMUNO NODDI PAPUR PRIORDY?**
**Cyswllt**
**PHILIP JONES**
**Trysorydd**
**☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk**



**Mis Awst**

**Byddaf yn cymryd gwyliau yn ystod mis Awst yn ôl fy arfer. Os oes argyfwng yn codi yn fy absenoldeb gellir cysylltu â mi yn unig drwy Ysgrifenyddion yr Eglwysi:**

**Y Priordy: Alun Charles ☎07813 716062**
**Cana: Marlene Jones ☎07528 454834**
**Bancyfelin: Joanne Richards ☎07412 254929**

**Gwerthfawrogwn pe na baech yn cysylltu â mi dros fy ffôn symudol yn ystod mis Awst ac eithrio drwy Ysgrifenyddion yr Eglwysi, os gwelwch yn dda.**

**Diolch am eich cydweithrediad**

**Beti-Wyn**

## DARLLENIADUR

| Mis Mai | Darlleniad |
|---|---|
| Wythnos 1 | Rhufeiniaid 6: 12-23 |
| Wythnos 2 | Rhufeiniaid 7: 15-25a |
| Wythnos 3 | Rhufeiniaid 8: 1-11 |
| Wythnos 4 | Rhufeiniaid 8: 12-25 |
| Wythnos 5 | Rhufeiniaid 8: 26-39 |
| Wythnos 6 | Rhufeiniaid 9: 1-5 |
| Wythnos 7 | Rhufeiniaid 10: 5-15 |
| Wythnos 8 | Rhufeiniaid 11: 1-2a, 29-32 |
| Wythnos 9 | Rhufeiniaid 12: 1-8 |

**DIOLCH YN FAWR**

***Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad***

**DYDD GWEDDI'R BYD**
**a**
**RHIAN EVANS**
**IRIS OWEN**
**a**
**CHYFAILL YR ACHOS**
***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***



**Meleri Llwyd O'Leary…**




**Oedfa Sul y Tadau**
***Dydd Sul 11 Mehefin 2023***

***HYFRYD*** oedd gweld cymaint o deuluoedd yr eglwys wedi dod ynghyd i ddathlu Sul y Tadau mewn oedfa arbennig ar fore Sul braf o Fehefin. Gan fod pererindod i Sain Ffagan ar 18 Mehefin (sef Sul y Tadau) penderfynwyd dathlu wythnos ynghynt ac roedd hi'n hyfryd i weld cymaint o dadau'r eglwys yn yr oedfa ac yn cymryd rhan.

Croesawodd Beti-Wyn bawb i'r oedfa a chafwyd gweddi agoriadol. Yna fe ganwyd dau emyn, sef *'Awn i mewn i byrth ein Duw'* (emyn rhif 52) ac '*Abba fe'th addolwn'* (emyn rhif 53). Diolch i Fand y Priordy am gyfeilio mor egnïol a safonol yn ôl yr arfer. Yn nesaf fe gafwyd y cyhoeddiadau ac fe fu Cadi, Ifan, Elliw, Greta a Miriam yn gwneud y casgliad. Yna fe ddaeth Cadi, Elliw, Lewis, Eben ac Elsi i'r pulpud i gyhoeddi'r emyn nesaf sef *'Mae'r bysedd sydd yn clicio'*. Cafwyd sbort a sbri yn canu'r gân hon gan fod gofyn i'r gynulleidfa wneud sawl symudiad diddorol wrth ganu megis clicio bysedd, crychu trwyn, plygu'r penliniau a chlapio.

Wedi'r emyn fe ddaeth Iestyn i'r pulpud i ddweud wrthon ni fod tadau yn cŵl, yn sbort ac yn gefnogol, yn garedig, yn hael, yn ddoniol a hyd yn oed yn gallu bod yn dipyn bach yn *embarassing* ar brydiau! Diolchodd am bob un tad ond hefyd am ein Tad ni oll, sef Duw.




Yn y rhan nesaf o'r oedfa daeth rhai o dadau'r eglwys ymlaen i'r ddarllenfa yn eu tro yn dal gwrthrych arbennig. Y cyntaf oedd Ieuan Wyn yn dal camera. Dywedodd fod pob tad yn hoffi tynnu lluniau o'u plant a bod hyn yn cadw atgofion yn fyw. Rydyn ni'n aml yn gallu anghofio pethau ond nid yw cof Duw ein Tad yn pallu fyth, mae'n cofio am bob un ohonom ac yn gwybod yn union beth yw ein hamgylchiadau.

Y nesaf i ddarllen oedd Tim Hayes ac roedd ef yn dal chwiban. Mae

angen chwiban fel reffarî ar ambell dad weithiau os oes rhyw anghytuno neu os oes rhywbeth wedi mynd o'i le. Yn debyg iawn i'r reffarî mae Duw y Tad hefyd yn chwythu'r chwiban weithiau. Drwy fywyd Iesu mae Duw yn dangos i ni beth sy'n iawn a beth sy'n anghywir, beth sy'n dda a beth sy'n ddrwg, mae'n dysgu gwersi i ni drwy'r amser ar sut i fyw yn dda.

Yna daeth Huw Jones at y ddarllenfa yn cario cloc. Gan fod bywyd y plant mor llawn mae edrych ar y cloc yn allweddol i unrhyw dad. Ond mae hyn yn ein hatgoffa bod Duw yn darparu amser ar ein cyfer ni hefyd ac y dylen ni ddefnyddio'r amser hwnnw yn ddoeth. Mae gan y Tad ddigon o amser i wrando arnon ni.

Wedyn daeth Iwan Griffiths at y ddarllenfa yn dal tŵls ac offer *DIY*. Mae gan bob tad offer er mwyn trwsio pethau. Mae pethau weithiau'n torri ac mae angen bocs tŵls at y gwaith atgyweirio. (Prysurodd Iwan i ddweud fod merched yr un mor abl â bechgyn pan ddaw'n fater o DIY!). Mae Duw ein Tad yn Dduw sydd yn trwsio ein bywydau ni hefyd. Os ydym wedi brifo bydd Duw yn ein trwsio, os oes rhywbeth o'i le mae'n dangos cariad, maddeuant ac yn rhoi cyfle newydd i ni, yn union fel y gwnaeth y tad yn nameg y Mab Colledig.

A darlleniad o ddameg y Mab Colledig o Efengyl Luc pennod 15 a gafwyd nesaf gan Derek Rees Gwastraffodd mab gwrthryfelgar ei etifeddiaeth ar fywyd gwyllt ond edifarhaodd ac fe gafodd ei groesawu yn ôl gan ei dad cariadus ond ar yr un pryd fe gafodd ffordd o feddwl y mab arall ei chywiro. Dameg sy'n ein hatgoffa y dylsen ni fod yn ostyngedig ac yn hyderus y bydd Duw yn barod i faddau i ni. Fe ddylsen ni efelychu'r Tad drwy roi croeso cynnes i'r rhai sy'n barod i edifarhau.




Yn nesaf daeth Rhydian Evans, Dafydd Davies ac Elfyn Jones ymlaen i'n harwain mewn gweddi. Diolchwyd am ein cartrefi a'n teuluoedd, ein rhieni a'r cariad, y gofal a'r consýrn a amlygwyd tuag atom pan oeddem yn blant. Diolchwyd am y bendithion a gawsom yn ein cartrefi a chariad tad a mam ac aelodau'r teulu gan gofio hefyd am y rheiny sy'n profi casineb a chreulondeb ac sy'n cael eu cam-drin. Ar ôl y weddi canwyd emyn '*Un cam bach'* (emyn rhif 800) i gyfeiliant band taro'r plant.

Yna croesawyd y plant i flaen y capel i wrando ar neges bwrpasol Beti-Wyn. Rydym yn aml yn galw Duw yn Dad ac mae tad yn rhywun arbennig iawn. Pam felly fod Duw y Tad yn sbesial? Dangosodd Beti-Wyn gwpan coffi oedd yn ei bag ar ôl taith gerdded ac roedd y cwpan wedi torri. Gofynnodd i'r plant sut oedd gwneud y cwpan yn saff o fewn y bag a chytunwyd bod rhaid gorchuddio'r cwpan gyda chwdyn swigod aer pwrpasol i'w ddiogelu rhag torri. Yn yr un modd mae Duw ein Tad yn ein diogelu ni ac yn gofalu amdanom fel hefyd ein tadau ni bob dydd. Yna dangosodd y gweinidog bapur £10 glân a newydd sbon i'r plant. Gofynnodd i rai o'r plant wasgu'r arian yn grimp yn eu dwylo a rhoddodd y papur £10 mewn pridd. O fewn dim roedd yr arian yn frwnt ac wedi ei grychu'n bob siâp. Ond pwysleisiodd Beti-Wyn - er ei fod yn frwnt ac wedi ei blygu - fod yr arian yr un gwerth ag yr oedd pan oedd yn newydd sbon a'i fod dal yn werthfawr. Rydym ni hefyd yn werthfawr yn llygaid Duw er bod gennym ni ein crychau a'n beiau. Yn yr un modd mae ein tadau ni yn ein caru ni ac yn ein trysori ni er pob bai.

Yn nesaf gofynnodd y Gweinidog i'r plant greu rhestr o rai pethau drygionus y mae nhw'n eu gwneud ar brydiau. Ysgrifennodd Beti-Wyn y rhain i lawr ar ddarn o bapur, megis dim gwrando, dim mynd i gysgu ar amser, bwyta gormod o losin, pinsho! Gosododd y darn papur mewn bowlen o ddŵr ac yn rhyfeddol pan gododd Beti-Wyn y papur o'r dŵr roedd y geiriau a'r rhestr o gamweddau wedi diflannu'n llwyr gan adael tudalen wen a glân o bapur. Mae Duw y Tad yn ein caru ac yn cael gwared ar bopeth sy'n ddrwg ynom. Mae hyn hefyd yn wir am ein tadau ni, maen nhw'n ein caru ni.

Felly i grynhoi mae Duw y Tad a'n tadau ni yn ein diogelu, yn meddwl ein bod yn werthfawr ac yn ein trysori ni ac yn edrych heibio'r pethau drwg sydd ynddom ac yn ein caru ni. Fe ddylem gofio hyn ar Sul y Tadau. Cyflwynwyd bisged Jammie Dodger gyda siâp y galon arno i bob plentyn a thad yn yr oedfa. Daeth yr oedfa i ben drwy ganu emyn *'Dad dy gariad yn glir ddisgleiria'* (Emyn rhif 228) a chyhoeddodd ein Gweinidog y fendith.




***DIOLCH*** i Beti-Wyn, y tadau a phlant yr Ysgol Sul am wasanaeth hyfryd a thwymgalon.

# SUL Y TADAU













## PERERINDOD YR OFALAETH

***RYN NI*** mor ffodus bod gennym yng Nghymru un o amgueddfeydd awyr agored gorau Ewrop sy'n gyfle gwych i ni ddysgu am dreftadaeth a diwylliant cyfoethog ein cenedl.




Agorodd Amgueddfa Werin Cymru, sy'n rhan o Amgueddfa Cymru bellach, yn nhiroedd Castell Ffagan ar gyrion Caerdydd ym 1948, diolch yn bennaf i weledigaeth, y curadur cyntaf, **Iorwerth Cyfeiliog Peate (1901-82),** brodor o Bandy Rhiwsaeson ym mhlwyf Llanbrynmair, Sir Drefaldwyn bardd ac arbenigwr llên gwerin ac awdur amrywiol.



Sain Ffagan oedd cyrchfan ein pererindod blynyddol eleni a braf oedd gweld y bws yn llawn o aelodau'r Ofalaeth a chyfeillion o Gapeli Heol Awst ac Elim Ffynnon-ddrain. Pawb mewn hwyliau da ac yn barod am ychydig o newid awyr! Roedd y daith yn ddigon pleserus – y tywydd yn ffafriol, yn sych a heb fod yn rhy dwym.




Wedi cyrraedd Sain Ffagan, roedd traed pob un ohonom yn gwbl rydd i fwynhau paned a phicnic a chrwydro o gwmpas - tan 2 o'r gloch!  Pinacl y diwrnod oedd ymgynnull yng Nghapel Pen-rhiw ar gyfer oedfa dan ofal ein Gweinidog yr amser hwnnw.



Yn ystod yr oedfa cawsom hanes diddorol y capel Undodaidd hynafol hwn gan Peter Hughes Griffiths. Gwyddom yn dda, wrth gwrs, am ddoniau cyfathrebu dawnus Peter ond roedd ei brofiadau personol o'r capel yn ychwanegu'n sylweddol at naws ei ddweud.  Mae'n un a fagwyd ym Mhentref Dre-fach Felindre, ble safai'r capel yn wreiddiol. Cofiai fynd yno'n blentyn gyda'i

fam, yn enwedig ar brynhawniau Sul ym mis Awst.  Mae’n cofio mynd hefyd i’r oedfa olaf a gynhaliwyd yno cyn symud y capel i Sain Ffagan – er mai’r tu allan yr oedd y pryd hwnnw oherwydd bod y capel yn llawn. Profiad arbennig iddo oedd gweld y rhifau’n cael eu gosod o gwmpas drws a ffenestri’r capel i helpu’r arbenigwyr wrth iddynt ddymchwel ac yna ailgodi’r capel. Cawsom lu o hanesion hynod o ddifyr gan Peter a syndod i lawer ohonom, efallai, oedd deall nad oes yr un capel Undodaidd yn dwyn enw Ysgrythurol. Roedd yr achlysur arbennig ac yn brofiad hyfryd nid yn unig i ni ond hefyd i Peter ac yn dwyn llawer o atgofion yn ôl iddo.  Diolch hefyd i Nansi Hayes am ddod â’r gyfrol Hanes Plwyfi Llangeler a Phenboyr gan Daniel E Jones (1899) i’r oedfa sy’n cynnwys adran ar Gapel Pen-rhiw.  Mae Peter, gyda llaw, yn paratoi erthygl ar Daniel Jones ar gyfer gwefan Stori Fawr Dre-fach Felindre.




Yn ystod yr oedfa canwyd tri emyn – *Cenwch i’r Arglwydd* (Tôn Hengoed), *O Dduw, a roddaist gynt* (Tôn Rhosymedre) *a Dy law, O dduw, fu’n tywys* (Tôn: Morning Light) yn ddigyfeiliant gan nad oes, ac na fu, offeryn yng Nghapel Pen-rhiw. Roedd mynd ar y canu ac mae llawer o’r diolch am hynny i’r codwr canu, Adrian Evans.

Cydiodd Beti-Wyn yn yr ail emyn, (Caneuon Ffydd 820) am ei sylwadau. Yr awdur yw Tomi Evans (1905-82), ewythr i’r diweddar Wyn Tegryn Evans a fu’n ddiacon yn y Priordy. Fe’i cyfansoddwyd ar gyfer dathliadau canmlwyddiant a hanner sefydlu’r achos yng Nghapel yr Annibynwyr yn Llwyn-yr-hwrdd, Sir Benfro, ym 1955 a’r neges a’r geiriau yr un mor addas wrth i ni gofio ac edmygu’r her o godi Capel Pen-rhiw ym 1777 - blwyddyn y tair caib - a’i ailadeiladu yn San Ffagan ym 1953. Cyfeiriodd ein Gweinidog yn ddeheuig a pherthnasol iawn at fwrdwn y tri phennill – Duw’r creawdwr a’r crefftwr, Duw’r cynhaliwr a Duw sy’n agor ffordd newydd i Iesu Grist. Diolch am ddweddglo priodol i’r oedfa hyfryd hon.

Wrth adael y capel gwelsom y fan, y tu ôl i’r adeilad, lle claddwyd llwch Iorwerth Peate, yn ôl ei ddymuniad, a’i wraig. Ar y garreg fedd yno hefyd y coffeir ei unig fab Dafydd (1936-1980).

Bu cyfle i grwydro ychydig mwy wedi’r oedfa a mwynhau paned bach arall – a hufen iâ!  Ufuddhaodd pawb i’r gorchymyn i ddychwelyd i’r bws erbyn 4.20 a bant â ni ar amser i gyfeiriad Llangennech gan edrych ymlaen at flasu’n pryd bwyd!

Roedd Tafarn y Bont dan ei sang wedi i ni gyrraedd ond ni amharodd hynny ddim ar ansawdd a mwynhad ein pryd bwyd o gwbl. Carferi ardderchog a phwdin i ddilyn a chwmni difyr iawn.





Talwyd y diolchiadau gan Sulwyn Thomas yn ei ffordd ddihafal a hwyliog ei hun. A gyda llaw, trwy gyd-ddigwyddiad eisteddai Sulwyn yng Nghapel Pen-rhiw yn yr union fan ble byddai Peter pan oedd yn blentyn! Cyfeiriodd Sulwyn at Tony a Julia, cyfeillion sy'n dod i'r oedfaon yn y Priordy o bryd i'w gilydd, a ymunodd â ni yn Sain Ffagan, Lyn Jones (Bancyfelin) am rannu losin ar y bws, Gwynfor Davies (Y Priordy) am baratoi'r taflenni ar gyfer yr oedfa, Adrian (Y Priordy) am godi'r canu, Elfed Lewis, gyrrwr gofalus y bws a'r un a drefnodd y bwyd nos, staff Tafarn y Bont a Peter Hughes Griffiths am ei araith arbennig.





Yn ddiddorol iawn, roedd person arall ar y daith yn ogystal â Peter, sy'n gallu dwyn atgofion personol am fangre yn Sain Ffagan. Cafodd bythynnod Rhyd-y-car eu hadeiladu'n wreiddiol tua 1800 yn Merthyr Tudful ar gyfer gweithwyr y gwaith haearn a'u hailadeiladu yn Sain Ffagan ym 1987. Wel, Rhif 3 yw'r man lle bu June Thomas (Y Priordy) yn 'gware gynt' ar aelwyd ei mam-gu a'i thad-cu! Rhyfedd o fyd, fel yr esboniodd Sulwyn. Ac wrth gwrs wrth gloi, cyfeiriodd Sulwyn at gyfraniad arbennig ein Gweinidog yn trefnu'r cyfan mor effeithiol yn ôl ei harfer!

Ni chafodd Sulwyn ei hunan fod yn ddihangol ychwaith, cofiwch, a chydganodd pawb 'Pen-blwydd Hapus' iddo ar derfyn wythnos arbennig iawn yn ei hanes!


***DIWRNOD*** da iawn unwaith eto!

**YMWELIAD Â SAIN FFAGAN**



# HOWELL HARRIS

### *a fu farw 250 o flynyddoedd yn ôl i'r mis hwn*



***ROEDD*** Howell Harris yn un o brif arweinwyr y Diwygiad Crefyddol yn y ddeunawfed ganrif ynghyd â Daniel Rowland o Langeitho a William Williams o Bantycelyn. Cafodd ei alw gan y Dr Martyn Lloyd-Jones '*yn un o ffigurau arwrol mawr yr eglwys Gristnogol'.*
Cafodd Howell Harris ei eni, 24 Ionawr 1714 yn Nhrefeca Fawr, Brycheiniog, a'i addysgu yn Academi Llwyn Llwyd yn Llanigon, heb fod yn bell o'r Gelli ym Mrycheiniog. Bu'n ysgolfeistr yn Llangors a Llangasty rhwng 1732-35. Cafodd holl gwrs ei fywyd ei newid gan weledigaeth a ddaeth iddo ar Sul y Blodau 1735 pan glywodd bregeth Pryce Davies, Ficer Talgarth, yn annog pobl i ddod i'r Cymun ar Sul y Pasg. Y profiad hwn a'i cychwynnodd ar lwybr ei droedigaeth fawr a'i arwain i ddechrau efengylu yn ei fro. Ymaelododd yn St Mary's Hall, Rhydychen, ond cefnodd ar y brifysgol o fewn dim amser. Ceisiodd am urddau eglwysig ym 1736 ond cafodd ei wrthod oherwydd ei bregethu afreolaidd. Bu'n ymdrin tipyn â'r Ymneilltuwyr ac aeth am gyngor gan Griffith Jones, Llanddowror. Awgrymodd Griffith Jones iddo ymdawelu ychydig ond doedd e ddim am wrando!

Daeth Harris i deimlo'r awydd am gymdeithas pobl debyg iddo. Roedd hefyd yn gweld yr angen i ddyfnhau profiadau'r dychweledigion a oedd wedi newid eu dull o fyw'n sydyn. Doedd pregethu'n unig ddim yn ddigon i gwrdd â'u hangen ac, felly, dyma fe'n cychwyn y Seiat. Er bod cymdeithasau tebyg yn Lloegr ers blynyddoedd a chyfarfodydd eglwysig gan yr hen Ymneilltuwyr, mae'n debyg mai dilyn ei reddf grefyddol ei hunan wnaeth Harris wrth sefydlu'r seiat. Cafodd y seiat gyntaf wedi'i threfnu ganddo'i chynnal ym 1736 yn y Wernos, ffermdy ym mhlwyf Llandyfalle, heb fod yn bell iawn o Lanfair-ym-Muallt.



Ym 1737, daeth Harris i gyswllt â **Daniel Rowland** am y tro cyntaf a dyma pryd y

dechreuodd y ddau gydweithio. Cyn hynny, roedd y ddau wedi bod yn efengylu ar wahân yn eu cylchoedd eu hunain. Ymhlith eu dychweledigion cyntaf roedd Howell Davies a William Williams. Daeth Harries hefyd i gyswllt â John Wesley a George Whitefield, arweinwyr Methodistiaeth Lloegr, a chafodd y rhain ddylanwad mawr ar y Diwygiad yng Nghymru. Pan ymrannodd yr arweinwyr Seisnig ym 1742, dilyn Whitefield wnaeth y mudiad Cymreig. Eto i gyd, roedd Harris yn cyfeillachu'n gyson â'r ddau Wesley gan geisio undeb.

Yn 1744 priododd Harris ag Anne Williams, merch John Williams, Yswain, o'r Ysgrîn. Wedi hynny, treuliodd flynyddoedd yn pregethu yng Nghymru a Lloegr a sefydlu seiadau wrth fynd ymlaen. Gwelwyd dawn arbennig Harries fel trefnydd ar waith wrth wneud hyn. Cafodd y Morafiaid ddylanwad mawr arno. Daeth hefyd i goleddu athrawiaeth Baptrisaidd [sef yr athrawiaeth bod Duw y Tad hefyd yn dioddef yn nioddefaint Iesu Grist] a hynny'n annerbyniol gan arweinwyr eraill, yn enwedig Rowland. Doedd ei gyd-arweinwyr, yn enwedig George Whitefied, ddim ychwaith yn hoff o'i gyfeillgarwch agos â gwraig gyfoethog, sef Mrs Sidney Griffith o Gefn Amwlch, Sir Gaernarfon a ddaeth dan ddylanwad y Methodistiaid. Arweiniodd hyn oll at y Methodistiaid Cymreig yn ymrannu'n ddwy blaid ym 1750 – pobl Rowland a phobl Harries. Bu'r ymraniad yn gyfrwng i lesteirio twf y diwygiad crefyddol mewn sawl ardal.



Ymneilltuodd Harris i Drefeca ym 1750 ac yno, ddwy flynedd yn ddiweddarach, sefydlodd 'ddinas sanctaidd' fel rhai tebyg gan y Morafiaid yn yr Almaen a Lloegr. Roedd ei ganlynwyr yno'n byw fel un 'teulu' ac yn cynnal eu hunain drwy gydweithio ar y tir ac ymgymryd ag amrywiol grefftau. Roedd Harris yn ymddiddori mewn amaethyddiaeth a bu'n flaenllaw'n sefydlu Cymdeithas Amaethyddol Brycheiniog. Yn y cyfnod hwn hefyd roedd ofn ymosodiad gan y Ffrancwyr ar y wlad. Sefydlodd Harris gatrawd o filwyr o blith y teulu a bu'n gapten arni. Treuliodd dair blynedd o wasanaeth yn y militia rhwng 1760-63 cyn rhoi' gomisiwn i fyny wrth i'r bygythiad o du'r Ffrancod gilio.

Cymododd â'r arloeswyr Methodistaidd mewn amser a gwelwyd

Wesley a Whitefield, Rowland a Williams gyda Harris yn Nhrefeca ym 1769. Ailafaelodd yn y gwaith o fynychu sasiynau, ymweld â seiadau a phregethu ond ni ddaeth wedyn yn arweinydd y mudiad. Nid pawb oedd yn barod i'w dderbyn, yn enwedig y cynghorwyr di-urddau, a doedd ganddo ddim yr un ynni erbyn hyn.

Roedd Harris, fel diwygwyr eraill, wedi dioddef llawer o erlid yn ystod ei fywyd. Cawsant eu trin yn dreisgar iawn yng Ngogledd Cymru a doedd pethau ddim yn dda iddyn nhw bob amser yn Sir Gâr ychwaith. Caiff ei gofnodi i ymosodiadau arnyn nhw ddigwydd yn Llandeilo, Llangydeyrn ac yn enwedig Cydweli a Llanymddyfri. Ysgrifennodd Harries am Lanymddyfri mor ddiweddar â 1770: *'Rwy'n dal i alw hwn yn bencadlys y Diafol, fel yr Hen Ficer.'!*

Roedd Harris yn gwrthwynebu'r duedd i wahanu oddi wrth Eglwys Loegr a chodi capeli a gorseddu'r sasiwn yn llys llywodraethol. Eto, rhoddodd ei gefnogaeth i'r Arglwyddes Huntingdon (a fu hefyd yn helpu Whitefield yn Lloegr) i godi athrofa i hyfforddi pregethwyr ifainc yn Nhrefeca-isaf ym 1768- 9. Yn rhyfedd ddigon, pen draw gweithgarwch Harris ac eraill fu gweld ordeinio gweinidogion yn y Bala a Llandeilo ym 1811 a hynny'n arwain ac greu'r Methodistiaid Calfinaidd, yn awr Eglwys Brsebyteraidd Cymru, fel enwad ymneilltuol.



Bu Harris farw 21 Gorffennaf 1773, a chladdwyd ei gorff ger yr allor yn eglwys Talgarth.

***MAE'N*** debyg nad oedd Harris yn ddyn hawdd i'w drafod. Roedd ganddo dipyn o dymer ac yn tueddu i fod yn unbeniaethol. Fodd bynnag, rydym yn cofio amdano fel trefnydd effeithiol a phregethwr grymus ac yn arbennig am ei awydd angerddol i achub eneidiau. Fel y dwedir yn y Bywgraffiadur Cymraeg: '*Bu'n gyfrwng i ddeffro'r werin Gymreig o'I chysgadrwydd a pheri iddi ddyfod o hyd i'w chyneddfau ysbrydol*'. Gadawodd lawer o bapurau ar ei ôl sy'n cofnodi'i weithgarwch rhyfeddol a'r profiadau arbennig a gafodd. Mae sawl un wedi pori yn y papurau hyn a chyhoeddi erthyglau a llyfrau ar Harris. Yn eu plith mae'r Dr Geraint Tudur, un o gyn ysgrifenyddion Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, gyda'r

gyfrol *Howell Harris: From Conversion to Separation 1735-1750* (Gwasg Prifysgol Cymru 2000).

**CAPEL CANA, BANCYFELIN**

CYMANFA GANU FODERN

**I DDATHLU AIL AGOR Y CAPEL**
**A 200 MLWYDDIANT YR ACHOS**

John Thomas, Derllys, Llywydd

Meinir Richards, Arweinydd

Dafydd Wyn Jones, Tenor

Côr Seingar

Côr Bois Y Felin

Band Capel Y Priordy

NOS SUL, 17 MEDI AM 7y.h

Rhaglen £5 ar gael gan yr aelodau, Siop y Pentan
neu Marlene Jones, 07528 454834

**TAITH GERDDED HIRDDYDD HAF**

**Nos Wener 14 Gorffennaf 2023**

**Gadael Maes Parcio Heol y Prior am 6**

**Pedair Milltir o Daith – Gwastad yr Holl Ffordd**



**Dewch â digon o ddiod a Byrbryd i’ch cadw i fynd**

**Croeso i bawb o bob oed**

## Tudalen Blaen

### *Y Rheswm dros Ddewis y Dyfyniad*

**Rydyn ni'n cofio Howell Harris y tro hwn. Bu farw 250 o flynyddoedd yn ôl i'r mis hwn.**

Mae un emyn o eiddo Harris yn *Caneuon Ffydd* (Rhif 15), sef cyfieithiad o bennill olaf emyn gan Thomas Ken, Esgob Anglicanaidd ac Emynydd (1637–1711) a gafodd ei ysgrifennu ar gyfer bechgyn Coleg Caer-wynt.



Gwelwyd trosiad Cymraeg Harris yn *Llyfr Hymnau o Waith Amryw Awdwyr (*1740), llyfr a gyhoeddwyd gan Nicholas Thomas, Caerfyrddin. Sefydlodd Thomas ei wasg ei hun yng Nghaerfyrddin yn 1721 - y gyntaf yn y dref honno



Mae'n debyg y bu'r pennill hwn yn Saesneg yn ddylanwadol yn trosglwyddo athrawiaeth y Drindod i gynulleidfaoedd: A dyma ddyfynnu'r pennill yn y Saesneg a'r Gymraeg:

**Praise God, from whom all blessings flow;**
**Praise Him, all creatures here below;**
**Praise Him above, ye heavenly host;**
**Praise Father, Son, and Holy Ghost.**

**(Thomas Ken)**

**I Dad y trugareddau i gyd**
**rhown foliant, holl drigolion byd;**
**llu'r nef moliennwch, bawb ar gân,**
**Y Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân.**

## ARIAN TRAMOR




**Ffion Parsons, Swyddog Eco'r Priordy, yn cyflwyno'r hen arian tramor a gasglwyd gennym ar gyfer Apêl Oxfam, i ddirprwy reolwr siop yr elusen yn y dref. Diolch i bawb a gyfrannodd.**

## AGOR Y LLYFR YN YSGOL Y DDERWEN



# IFANC@PRIORDY…

Wel dyma ni wedi dod i ddiwedd tymor arall a phawb yn barod ar gyfer hoi fach dros yr haf. Diolch yn fawr iawn i chi gyd am eich ffyddlondeb trwy'r flwyddyn. Bydd tymor yr Ysgol Sul yn gorffen gyda pharti yn y festri fore Sul 2 Gorffennaf!

## PARTI DIWEDD TYMOR



BORE SUL 2 GORFFENNAF
AM 10.00 YN Y FESTRI



COFIWCH DDOD!

Ond… er bod y tymor yn dod i ben yn y festri,
mae gwahoddiad i bawb ddod
**i'r Egin b'nawn Sul, 8 Gorffennaf**
ar gyfer y

## Sul Sbesial

Bydd gweithgareddau arbennig i blant yno!

Cofiwch ddod ar ein



## Taith Gerdded Hirddydd Haf

Nos Wener, 14 Gorffennaf
Gadael maes parcio Heol Y Prior am 6.00
4 milltir o daith
Gwastad y rhan fwyaf o'r ffordd!
Dewch â digon o ddiod a byrbryd i'ch cadw i fynd.
Croeso i bawb o bob oed

# CHWILOTAIR LLYTHYREN 'M'

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| M | L | M | H | T | I | A | B | A | M | H | D | L | C |
| A | W | A | I | C | M | A | N | A | M | T | M | M | O |
| R | A | O | A | N | M | M | M | M | T | I | A | O | O |
| M | M | S | M | A | N | T | E | L | L | D | I | L | S |
| D | M | M | A | I | E | S | B | M | A | T | R | I | A |
| M | A | R | C | M | Y | N | Y | D | D | M | A | A | A |
| E | T | A | A | O | M | A | M | M | A | A | T | N | R |
| S | M | L | B | A | A | C | M | M | A | R | W | T | M |
| E | A | A | E | A | M | M | I | A | R | A | I | H | A |
| I | D | A | A | T | R | R | C | M | M | O | R | N | L |
| A | D | E | I | M | A | T | H | E | W | M | B | E | A |
| A | A | S | D | W | H | M | A | N | A | S | S | E | C |
| N | U | M | E | L | C | A | A | B | M | L | M | A | H |
| B | A | I | H | E | E | M | A | T | H | A | N | M | I |

MOLIANT
MYNYDD
MARW
MAM
MAWL
MADDAU
MANTELL
MALACHI
MAIR
MANASSE
MARC
MATHEW
MACABEAID
MOR
MAB
MATHAN
MESEIA
MICHA

Llongyfarchiadau i bawb o PIP sydd wedi llwyddo mewn arholiadau amrywiol. Pob lwc i'r dyfodol. Gwych gweld 3 o griw PIP ymhlith prif swyddogion newydd Ysgol Bro Myrddin. Gwych iawn.

Mwynhewch yr haf. Cymerwch ofal a dewch nôl yn ddiogel erbyn mis Medi.

Beti-Wyn

**YN MWYNHAU SAIN FFAGAN!!**


















**Papur Priordy’n sgwrsio â**

## MEILYR GRUFFUDD

**PP: Beth am ddweud ychydig i ddechrau, Meilyr, am eich swydd bresennol?**
**MG:** *Rwy’n feddyg teulu yn Llandysul ers tua 10 mlynedd nawr. Nes i raddio mewn Meddygaeth yng Nghaerdydd yn 2007 a gweithiais mewn sawl adran o’r ysbytai lleol yng Nghaerfyrddin ac Abertawe cyn dod i fy swydd bresennol.*



**PP: Fu awydd ynoch i fod yn feddyg ers dyddiau cynnar?**
**MG:** *Dim nes diwedd yr ysgol uwchradd. Dw i’n credu ro’n i eisiau gyrfa yn darlunio cartwnau cyn hynny!*

**PP: Mae llawer iawn mwy o bwyslais yn awr ar ddefnyddio’r Gymraeg fel cyfrwng wrth hyfforddi darpar feddygon mewn ysgolion meddygaeth yng Nghymru. Ydych chi’n croesawu hyn?**
**MG:** *Ydw, yn ein meddygfa ni ryn ni’n dysgu myfyrwyr meddygol*

*sy'n dod atom ni bob blwyddyn. Mae llawer ohonyn nhw'n siarad Cymraeg ac rwy'n mwynhau eu dysgu yn y Gymraeg. Mae'n weddol hawdd gwneud hynny yn Llandysul gan fod llawer o'n staff a'n cleifion ni'n siarad Cymraeg.*

**PP: Maen nhw'n dweud fod lefel gwaith meddygon teulu yn uwch nag eiroed erbyn hyn, yn enwedig ers y pandemig. Fasech chi'n cytuno?**
**MG:** *Roedd lefel y gwaith yn uchel cyn y pandemig ond gwnaeth y pandemig bethe'n fwy anodd a chymhleth. Mae'r pwysau gwaith yn uchel iawn yn enwedig yn y gaeaf. Dw i'n gweithio oriau hir ac yn aml yn gwneud mwy o waith ar y cyfrifiadur yn y nos ar ôl i'r plant fynd i'r gwely.*

**PP: Corff annibynnol sydd newydd ei sefydlu yw Llais i gynrychioli llais defnyddwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar draws Cymru. Honnir y bydd y corff newydd "yn cryfhau grym a dylanwad lleisiau pobl wrth siapio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru". Ydych chi'n croesawu hyn?**
**MG:** *Ydw yn sicr, mae'n bwysig hefyd fod ein cleifion yn gallu cael gwasanaeth Cymraeg gymaint a bosib.*



**PP: Chi'n frodor o Aberystwyth. Dyddiau difyr yn yr ysgol a'r capel yn y dref ger y lli?**
**MG:** *Rydw i'n hoff iawn o Aberystwyth, roedd yn lle da iawn i dyfu i fyny ynddo. Mae gen i lawer o atgofion da am yr Ysgol Sul, yn cynnwys mynd ar dripiau i Sŵ Caer, gwasanaethau Nadolig a mynd i ymweld ag aelodau mewn oedran yn yr ysbyty neu yn eu cartrefi.*




**PP: Mae'ch gwraig, Teleri, yn dod o Gaerwedros. Mae hithau hefyd yn y byd meddygol.**
**MG:** *Mae hi'n fferyllydd ac roedd hi'n gweithio yn yr ysbyty hefyd. Mae hi nawr yn Fferyllydd Addysg a Hyfforddiant ac yn helpu myfyrwyr sydd*

*yn hyfforddi i fod yn fferyllwyr.*

**PP: Mae Alis a Mali, eich plant yn aelodau yn ein Hysgol Sul. Pa mor bwysig i chi yw sicrhau Ysgol Sul iddynt?**
**MG:** *Gan fy mod i wedi mwynhau ac wedi elwa'n dda o'r Ysgol Sul pan oeddwn i'n blentyn mae'n bwysig i mi bod Alys a Mali yn cael yr un profiadau.*

**PP: Rych chi fel teulu yn byw yng Nghwmffrwd a chithau'n ceisio rhedeg yn yr ardal i gadw'n heini pan gewch gyfle!**
**MG:** *Dyw hynny ddim yn aml iawn! Rwy'n trio rhedeg o leia unwaith yr wythnos ond mae byd gwaith a phlant ifanc yn rhai prysur iawn! Rwy'n ceisio ymuno ag ambell ras 10k bob blwyddyn.*

**PP: Rhwng gwaith a magu plant ifainc mae bywyd y gallu bod yn llawn iawn, siŵr o fod, ond tybed beth wnewch chi fel teulu i geisio ymlacio?**
**MG:***Ryn ni'n hoff iawn o fynd i'r traeth pan ryn ni'n gallu. Llansteffan a Dinbych-y-pysgod yw'r ffefrynnau'r plant - er mwyn cael hufen iâ ar ôl cerdded ar y traeth!*

***Diolch yn fawr iawn i chi am y sgwrs, Meilyr a phob dymuniad da i chi a'r teulu i'r dyfodol***

**DALIER SYLW - DIGWYDDIAD O BWYS**
**Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin**



**CAMU 'MLAEN**

**Nos Lun, 17 Gorffennaf 2023 -7.00**
**Festri Heol Awst**

**Noson gyda'r**
**Parchedig Carwyn Siddall, Llanuwchllyn,**
***Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau'r Undeb***

**Dewch i gwrdd â Carwyn ac i glywed am ei gynlluniau**
***Croeso cynnes i bawb***

***Lledaenwch y wybodaeth am y cyfarfod hwn, os gwelwch yn dda***



**CWIS Y SALMAU**

**Pa mor dda ydych chi'n 'nabod y salmau? Yn hytrach, pa mor dda ydych chi'n 'nabod y salmau yn fersiwn beibl.net?!!!!**

**Llanwch y Bylchau! Rhowch gynnig arni! Ceisiwch ddyfalu! Pob lwc!!**

*Salm 122*

## Canmol Jerwsalem

*Cân yr orymdaith. Salm Dafydd.*1

**Ro'n i wrth fy --- pan ddwedon nhw wrtho i,**
**"Gadewch i ni fynd i deml yr ARGLWYDD."**
**Dyma ni yn sefyll y tu mewn i dy giatiau,**
**O Jerwsalem!** 3
**Mae --------- yn ddinas wedi ei hadeiladu,**
**i bobl ddod at ei gilydd ----**
4 **Mae'r llwythau yn mynd ar ---------- iddi,**
**ie, llwythau'r ARGLWYDD.**
**Mae'n ddyletswydd ar bobl Israel**
**i roi ----- i'r ARGLWYDD.**
5 **Dyma ble mae'r llysoedd barn yn ------,**
**llysoedd barn llywodraeth -----.**
**Gweddïwch am heddwch i Jerwsalem:**
**"Boed i'r rhai sy'n dy garu di lwyddo.**
7 **Boed heddwch y tu mewn i dy ------,**
**a diogelwch o fewn dy gaerau."**
**Er mwyn fy mhobl a'm ffrindiau**
**dw i'n ------ am heddwch i ti.**
9 **Er mwyn teml yr ARGLWYDD ein Duw,**
**dw i'n ----- am lwyddiant i ti.**

**Atebion ar Dudalen**

**Carys Morgans, Swyddog Cyswllt y Gefeillio**
*yn cyflwyno...*

# NEWYDDION O SALEM, CAERNARFON

## Cymorth Cristnogol

**Dydd Sul - Gwsanaeth Undebol – Capel Noddfa**
**Addoli - Cymdeithasu - Rhoi**


| BORE LLUN | NOS WENER |
|---|---|
|  |  |





**Beicwyr Cymorth Cristnogol**



| BEDYDDIO 3 BABAN! | GŴYL FWYD Y DREF |
|---|---|
|  |  |

# PREGLWYSIO?!



***DIGWYDD*** siarad â chymdog a hithau'n dweud fod ei mab a'i deulu wedi treulio gwyliau'n gwersylla mewn hen eglwys yn ddiweddar!

Gwersylla mewn eglwys neu 'breglwysio' yw'r cysyniad unigryw o wersylla dros nos mewn eglwysi hynafol. Yr Ymddiriedolaeth sy'n Gwarchod Eglwysi yn Lloegr yw'r elusen sy'n trefnu hyn. Cychwynnodd y fenter yn 2015. Y pwrpas yw ceisio amddiffyn eglwysi hanesyddol sydd mewn perygl yn Lloegr. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gofalu am fwy na 350 o eglwysi o arwyddocâd hanesyddol, diwylliannol a phensaernïol sydd wedi'u trosglwyddo i'w gofal gan Eglwys Loegr.

Nid yn unig mae 'preglwysio', neu 'champing' yn Saesneg, yn ddull o ddarparu llety i wersyllwyr ond hefyd o godi arian at yr eglwysi hynafol hyn i'w gwarchod a'u diogelu.




Mae'n amlwg i'r cysyniad dreiddio i Gymru. Yr eglwys gyntaf i gynnig llety yn ein gwlad ni yw Eglwys Sant Dona, Llanddona, pentref a chymuned yn ne-ddwyrain Ynys Môn ac ardal wyliau boblogaidd iawn. Nodwedd amlycaf yr ardal yw'r mast radio ar fryn uwchben y pentref. Mae'r eglwys wedi ei chysegru i Sant Dona, mab Selyf ap Cynan o deulu brenhinol Teyrnas Powys. Dywedir fod yr eglwys wreiddiol yn dyddio o tua 610. Ailadeiladwyd yr eglwys bresennol ym 1873. Yn yr eglwys mae cloch yn dyddio o 1647 a chwpan cymun arian yn dyddio o 1769, ond gyda chaead o 1574. Saif yr eglwys ryw ganllath o'r traeth,

Doedd dim modd i'r plwyfolion gynnal dwy eglwys ar gyfer un gynulleidfa - Sant Dona a Sant Iestyn, sydd mor agos at ei gilydd. Yn dilyn sawl trafodaeth, yn cynnwys ystyried y posibilrwydd o gau, penderfynwyd aros tan 2024 i weld a fyddai modd meddwl am ddefnydd amgen i Sant Dona a dangos fod gan yr adeilad bosibiliadau. Hyd yn hyn, mae'r syniad yn un poblogaidd ac yn lledaenu.

Yn nes adre, mae'r pamffledyn a gynhyrchwyd gan Gyfundeb

Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin yn un hynod ddeniadol a diddorol – diolch yn bennaf i Alun Lenny am ei baratoi. Pererindota yw'r teitl ac ynddo mae manylion cyswllt a map yn dangos enghrefftiau o gapeli sy'n cynnwys atyniadau trawiadol, gan gynnwys rhai hanesyddol, yn y Cyfundeb y byddai modd ymweld â hwy.  Mae'r pamffledyn wedi'i anfon hefyd i bob cyfundeb yng Nghymru. Mae lluniau pob un o gapeli'r Cyfundeb i'w gweld mewn fideo ar y wefan: Cyfundeb.com.




Tybed a ddaw amser pan fydd modd ychwanegu ambell enghraifft at gynnwys y pamffledyn yn cynnig cyfle i bererinion 'breglwysio' o fewn ein Cyfundeb?!

Ond nid yw'n hetifeddiaeth yn gyfyngedig i Orllewin Caerfyrddin ychwaith.

Fel y dywed CAPEL, Cymdeithas Treftadaeth Cymru, *'mae gan bob tref a phentref yng Nghymru gapeli. Maent wedi chwarae rhan bwysig yn natblygiad ein cymdeithas. Mae'r adeiladau trawiadol - weithiau'n gartrefol, weithiau'n hynod, ond yn aml yn ysblennydd - wedi cyfrannu'n helaeth at olwg ein gwlad. Heddiw, mae'r cynulleidfaoedd a'r adeiladau yn diflannu'n gyflym.'*

Capel
CYMDEITHAS TREFTADAETH Y CAPELI
THE CHAPELS HERITAGE SOCIETY

Oni allai'r cyfle i breglwysio mewn ambell fan priodol ac addas, a'r incwm sy'n deillio ohono, wneud cyfraniad bach ond pwysig at warchod a diogelu ambell un o'n capeli a thrwy hynny ddiogelu rhan enfawr o'n hanes a'n diwylliant rhag chwalu a diflannu?

***A*** gyda llaw, fe gafodd mab fy nghymydog a'I deulu amser ardderchog yn 'preglwysio' – a hynny ar y Fam Ynys yma yng Nghymru!!!

**Diolch yn fawr iawn i Elinor Wyn Reynolds am fathu'r gair 'preglwysio' [preswylio + eglwys] !!**

## PEN-BLWYDD EIN GWASANAETH IECHYD GWLADOL

***SEFYDLWYD*** y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) ar 5 Gorffennaf 1948, sef 75 o flynyddoedd yn ôl i'r mis hwn. GIG yw'r term ymbarél ar gyfer y pedwar gwasanaeth iechyd yng ngwledydd Prydain, sef GIG Cymru, GIG Lloegr, GIG Yr Alban a GIG Gogledd Iwerddon.

Y Gweinidog Iechyd pan sefydlwyd y GIG oedd Aneurin Bevan (1897-1960), gŵr a ddechreuodd ei yrfa fel glöwr pan adawodd yr ysgol yn 13 oed.



Roedd gan Bevan dair brif egwyddor dros sefydlu'r gwasanaeth, sef estyn parch, urddas a thosturi a gofal at bobl yn rhad ac am ddim pan fyddent eu hangen.
Ar lansio'r GIG dyma oedd y system iechyd orau yn y byd i gyd. Cyn 1900, elusennau yn bennaf oedd yn darparu gofal iechyd a hynny o fewn y wyrcws, dan gyfraith wael ynghyd â sector breifat heb ei reoleiddio.

Mae'r gwasanaethau iechyd wedi'u datganoli bron yn gyfan gwbl yng Nghymru ers 1999. Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r strategaeth Gofal Iechyd a GIG Cymru sy'n cyflenwi'r strategaeth a'r gwasanaethau hynny drwy'r Saith Bwrdd Iechyd Lleol, tair Ymddiriedolaeth y GIG a'r ddau Awdurdod Iechyd Arbennig. Darperir gofal iechyd i oddeutu tair miliwn o bobl sy'n byw yn y wlad. Mae gan y GIG egwyddor allweddol, sef – Dylai gofal iechyd da fod ar gael i bawb.

Dros y blynyddoedd mae'r gwasanaeth wedi newid ac esblygu. Bu cerrig milltir nodedig er dechreuadau GIG ym 1948. Er enghraifft:

**1968**
Trawsblaniad calon gyntaf yn Ysbyty Cenedlaethol Y Galon, Llundain.


**1972**
Sgan CT cyntaf yn chwyldroi'r ffordd gall meddygon archwilio'r corff.



**1980**
Sgan Delweddu Cyseiniant Magnetig (MRI) ar gael.

*NI* fu'r blynyddoedd heb eu heriau na'u hanawsterau ychwaith a gwelwyd hynny'n arbennig pan oedd Covid-19 ar ei waethaf. Er hynny, mae lle gan lawer iawn ohonom i fod yn ddiolchgar am ein gwasanaeth iechyd a does ond gobeithio y bydd egwyddorion y sylfaenydd yn parhau i gael eu gwireddu.





**DALIWCH ATI I GASGLU STAMPIAU A CHETRYS**

**CYMANFA GANU UNDEBOL CAERFYRDDIN A'R CYLCH**
**NOS SUL, 24 MEDI 2023 am 5**
**CAPEL PENYGRAIG, CROESYCEILIOG**

**Arweinydd**
**Meinir Richards Llanddarog**

**Rihyrsals yng Nghapel Penygraig dan ofal Helen Gibbon**
**Nos Sul, 16 Gorffennaf am 5 a Nos Sul, 10 Medi am 5**

***Bydd yr emynau o Raglen Cymanfaoedd Canu 2022-2023. Pris Rhaglen yw £2 (Hen Nodiant / Sol-Ffa).***

**CWRDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR Y PRIORDY**

**Nos Fercher 20 Medi 2023 am 7.30**
**yn y Festri**
**Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid a'r ymddiriedolwyr eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda**

**CWPAN Y BYD! DYMA NI'N DOD!**

**Llongyfarchiadau mawr i Jac Tomos a Tomos Morgans, aelodau o Gôr Aelwyd Hafodwenog a fydd yn mynd i Gwpan y Byd yn Ffrainc yn yr Hydref ar ran yr Urdd i ganu!**
**Rhagorol! Pob dymuniad da iddynt!**

RUGBY
WORLD CUP™
FRANCE 2023

**Papur Priordy eisoes yn edrych ymlaen at glywed yr hanes!**

## GWASANAETH CARTREF PLAS Y DDERWEN











**CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYRDDIN**



**CWRDD CHWARTER**
**Dydd Iau, 9 Medi 2023 - Capel Bwlch y Corn**

**Y Gynhadledd am 4 o'r gloch**
**Cyfarfod yr Hwyr am 7 o'r gloch**
**Siaradwr Gwadd**
**Hefin Wyn**
**Brwydr y Preselau**

**Croeso i bawb**

---

**BORE COFFI McMILLAN**
***Yn rhan o Fore Coffi Mwya'r Byd***

**Dydd Gwener 29 Medi 2023**
**Clwb y Cwins, Abergwili**
**9.30 tan 12.00**
**Mynediad am ddim**

**Stondinau Cynnyrch Cartref a Raffl**

**Am ragor o wybodaeth, neu i gynnig eich help ac unrhyw gyfraniad at y raffl neu'r stondin cacennau cysylltwch ag Alison Parsons, os gwelwch yn dda**


---

**GWASANAETH CARTREF PLAS Y DDERWEN**
**Prynhawn Gwener – 10 Hydref 2023**
**2 o'r gloch**
***gyda'n***
**Gweinidog**
**Croeso i bawb**




---





**CINIO DYDD SUL YR OFALAETH**
**Dydd Sul 15 Hydref 2023**
**Tafarn y New Cross, Dryslwyn**
**12.30 ar gyfer bwyta am 1.00**
**Mwy o fanylion i ddod**

---

**AR Y WE:** **www. priordy.org** ***(yn cynnwys Papur Priordy)***

## EISTEDDOD YR URDD SIR GÂR 2023

**Ryn ni'n ddiolchgar iawn i bawb – yn oedolion, pobl ifanc a phlant a gyfrannodd ym mhob rhyw fodd at lwyddiant Eisteddfod Sir Gâr yn Llanymddyfri eleni – yn yr oedfa ble bu'r plant a'r band yn cymryd rhan, ym Mhrosiect 23 ac yn yr eisteddfod ei hunan. Llongyfarchiadau arbennig i ieuenctid y Priordy a gyrhaeddodd y brig naill ai'n unigol neu fel aelodau o ddeuawdau, corau, partïon ac ati. Ardderchog!**

### Ysgol y Dderwen

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llefaru | Bl 2 ac Iau | 1 | Rhys Evans |
| Unawd | Bl 3 1 4 | 2 | Greta Ann Jones |
| Unawd Cerdd Dant | Bl 3 a 4 | 2<br>3 | Lliwen Schiavone- Ifan<br>Nansi Howells |
| Band | Bl 6 ac Iau | 1 | Luned Ifan<br>Olwen Williams |
| Parti Dawns Werin | Bl 4 ac Iau | 3 | Nansi Howells<br>Lliwen Schiavone-Ifan<br>Gwern Schiavone-Ifan<br>Steffan James |
| CogUrdd | Bl 4,5,6 | 3 | Cian Evans |
| Ffotograffiaeth | Bl 5 a 6<br>Cyfres o luniau lliw | 1 | Olwen Williams |
| Creadigol 2D | Bl 3 a 4 | 2 | Lliwen Schiavone-Ifan |
| Eisteddfod T | Tric Hud a Lledrith | 1 | Noa Jones |

### Ysgol Llangynnwr

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ffotograffiaeth | Bl 2 ac Iau<br>Llun lliw | 2 | Greta Wyn |

### Ysgol Bro Myrddin

| | | | |
|---|---|---|---|
| Deuawd | Bl 9 ac Iau | 3 | Miriam Williams a Beca Elfyn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Unawd Offer Taro | Bl 7,8,9 | 1 | Tomos Morgans |
| Perfformiad Theatrig o Sgript | Bl 7,8 a 9 | 3 | Tomos Morgans |
| Grŵp Llefaru | Bl 7,8 a 9 | 1 | Anna Jones, Gwenan Jones |
| Parti Cerdd Dant | Bl 7,8 a 9 | 1 | Efa Evans, Beca Elfyn, Miriam Williams |
| Côr S.A. | Bl 7,8,9 | 1 | Anna Jones, Efa Evans, Beca Elfyn, Miriam Williams |
| Deuawd | Bl 10 a dan 19 | 1 | Erin Roderick |
| Grŵp Cerdd  Dant | Bl 10 a dan 19 | 2 | Siwan Jones Gwenllian Jones |
| Tîm Siarad Cyhoeddus | Bl 10 a dan 19 | 2 | Gwenllian Jones |
| Côr Cerdd Dant | Bl 13 ac Iau | 1 | Siwan Jones, Gwenllian Jones, Erin Roderick Marged Jones |
| Côr S.A. | Bl 13 ac Iau | 1 | Siwan Jones, Gwenllian Jones, Elin Roderick |
| Côr S.A.T.B. | Bl 13 ac Iau | 2 | Siwan Jones, Gwenllian Jones, Erin Roderick, Elis Roderick, Harri Howells |
| Cyfansoddi Cerddoriaeth | Bl 10 ac Iau | 3 | Erin Roderick |

## Ysgol Maes y Gwendraeth

| | | | |
|---|---|---|---|
| Perfformiad Theatrig o Sgript | Bl 7,8,9 | 1 | Osian Hayes |
| Parti Bechgyn | Bl 7,8,9 | 2 | Osian Hayes |

## Aelwyd Hafodwenog

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dawns Werin | Bl 10 a dan 19 | 1 | Jac Tomos |
| Côr Cymysg Bach S.A.T.B. | 14-25 | 2 | Jac Tomos Tomos Morgans |
| Côr Cymysg Mawr S.A.T.B. | 14-25 | 3 | Jac Tomos Tomos Morgans |
| Côr T.T.B. | 14-25 | 3 | Jac Tomos Tomos Morgans |

# ADDOLI AR Y CYD
# MIS AWST 2023

**Dydd Sul, 6 Awst – 10 y bore**
*Heol Awst*
*Oedfa Gymun*
**ELONWY PHILLIPS**

**Dydd Sul, 13 Awst**
**Y trefniadau i'w cyhoeddi**

**Dydd Sul, 20 Awst – 10-30 y bore**
*Y Tabernacl*
**HEFIN WYN**

**Dydd Sul, 27 Awst – 10 y bore**
*Y Priordy*
**Y PARCHEDIG**
**DAVID JONES**
**Greenfield, Llanelli**

*Rhyddheir hefyd Oedfa Ddigidol ar y Suliau hyn – diolch i garedigrwydd ein Gweinidog*

**Casglwyd £285 at Gymorth Cristnogol eleni. Diolch i bawb a gyfrannodd ac i Adrian Evans, ein Trysorydd, am gadw'r cyfrifon**



**BORE COFFI CYMORTH CRISTNOGOL**
**Dydd Sadwrn 23 Medi 2023**
**Neuadd San Pedr**
**Caerfyrddin**

# DYLETSWYDDAU

## GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

| Gorffennaf | | Medi | |
|---|---|---|---|
| Gofalwr | Gwresogwr | Gofalwr | Gwresogwr |
| Alison Parsons | | Elinor Wyn Reynolds | Adrian Evans |

## BLODAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gorffenaf | 2 | | Medi | 3 | |
| | 9 | Sul y Cyfundeb | | 10 | Olive Lloyd |
| | 16 | Thelma Evans | | 17 | |
| | 23 | | | 24 | Beti-Wyn James |
| | 30 | Addoli yn y Tabernacl | | | |

## PARATOI'R BWRDD CYMUN

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gorffennaf | 2 | Bore | Alwen Owens a Fiona Elias |
| Medi | 3 | Bore | Eleri Thomas a Delyth Davies |

## DARLLENWYR

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gorffennaf | 2 | June Thomas | Medi | 3 | Y Plant |
| | 9 | Sul y Cyfundeb | | 10 | Meleri Ll O'Leary |
| | 16 | Peter Hughes Griffiths | | 17 | Heledd Tomos |
| | 23 | Heledd Mai Jones | | 24 | |
| | 30 | Addoli yn y Tabernacl | | | |

## CYHOEDDWYR

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gorffennaf | Alison Parsons | Medi | Elinor W Reynolds |

***Dydd Sul, 27 Awst 2023***

***Gofalwyr y Mis/ Cyhoeddwyr i drefnu ymysg ei gilydd pwy fydd yn gyfrifol***

***EIN*** cofion cynnes at bawb sy'n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy'n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phawb sydd mewn cartrefi ac yn gaeth i'w haelwydydd ar hyn o bryd. Meddyliwn yn arbennig am Thelma Evans a Nia Lewis. Dymunwn yn dda i bob un ohonoch.

Mae deuddeg o deitlau wedi cyrraedd rhestr fer Llyfr y Flwyddyn eleni, ac mae cyfle i ddarllenwyr bleidleisio am eu hoff gyfrol yng nghystadleuaeth Barn y Bobl.
Mae **golwg360** yn cael sgwrs gyda'r awduron ar y rhestr fer yn eu tro, er mwyn dod i wybod mwy amdanyn nhw a'u cyfrolau. Un ohonyn nhw yw Elinor Wyn Reynolds, sydd wedi cyrraedd rhestr fer y categori Barddoniaeth gydag **Anwyddoldeb –** casgliad o gerddi sy'n mynd yn ôl dros fwy na chwarter canrif o sgrifennu - cymysgedd hyfryd ac ofnadwy o bethau doniol a difrifol, y digri a'r dwys, fel sydd mewn bywyd**. Fe ofynnwyd i Elinor am deitl y gyfrol ac meddai:**

*O ran y teitl, **Anwyddoldeb,** dydy'r gair ddim y bodoli yn y geiriadur (hyd yn hyn). Fe wnaeth Mam glywed rhywun yn ei ddefnyddio ar ddiwedd cyfarfod Merched y Wawr yn ôl yn y saithdegau, fe wnaeth rhywun ddiolch i westai'r noson 'am ei anwyddoldeb.' Ei? Beth?! Daeth Mam adre ac fe dreuliodd hi a Dad noson gyfan yn chwilio am y gair mewn geiriaduron. A dod o hyd i ddim byd. Felly, mae 'anwyddoldeb' yn gallu golygu unrhyw beth chi am iddo fe olygu. Mae 'anwyddoldeb' yn air* Swiss Army Knife*! Addas at bob pwrpas.*

Ac awdur arall sydd wedi cyrraedd rhestr fer y categori Barddoniaeth yw Menna Elfyn gyda'i chyfrol **Tosturi**.

Bu Cymdeithas yr Iaith a'r elusen meddwl.org yn cynnal trafodaeth banel yn yr Eisteddfod am bwysigrwydd darparu gwasanaethau iechyd a lles i blant a phobl ifanc yn Gymraeg a Llinos Roberts, yr ymgyrchydd iaith a'r meddyg teulu fu'n arwain y drafodaeth. Yn ôl Gwerfyl Roberts, Cadeirydd Grŵp Iechyd Cymdeithas yr Iaith, roedd hi'n addas tynnu sylw at ddiffyg gwasanaethau iechyd Cymraeg i bobl ifanc yn yr ŵyl fwyaf i bobl ifanc yn Ewrop ac sy'n digwydd yn Gymraeg.

Gwelwyd Sara Llwyd James ar **Prynhawn Da** ar **S4C** yn arddangos ei chasgliad o ddillad yn Sioe Ffasiwn i Raddedigion Ysgol Gelf Caerfyrddin gyda Choleg Sir Gâr. Hyfryd oedd gweld ffrwyth ei llafur hithau (yn enwedig Crys T Tryweryn!) a'i chyd-fyfyrwyr. Mae ffasiwn Cymru i'r dyfodol mewn dwylo da, ddywedwn i! Cafodd Beti-Wyn, fel un o'r mamau, hefyd gyfweliad â Huw Fash.

Ar **Dros Frecwast** ar **Radio Cymru** un bore bu'r Prifardd Tudur Dylan Jones yn sôn am ei brofiad fel Meuryn yn Ymryson y Beirdd yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru. Bu wrthi am gyfnod o ugain mlynedd ond mae'n troslwyddo'r gwaith eleni i'r Prifardd Twm Morus.  Diolch yn fawr iawn i Dylan am ei lafur dros y blynyddoedd a dymuniadau da hefyd i'r Meuryn newydd.

***CAFODD*** Sulwyn Thomas – 'un o leisiau enwoca' Cymru' – syrpreis go iawn ar achlysur ei ben-blwydd arbennig pan ymwelodd Mari Grug a chamerâu **Heno (S4C)** â'i gartref. Cawsom gipolwg ar rai o binaclau ei yrfa lwyddiannus ac, wrth gwrs, mae Sulwyn yn parhau i wasanaethu'i gymuned mewn sawl ffordd werthfawr hyd heddiw a hynny mor frwdfrydig ag erioed. Bu Shân Cothi hefyd yn siarad â Sulwyn ar **Bore Cothi** ar **Radio Cymru**.  Pen-blwydd i'w gofio yn sicr!!

**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Medi i'n Gweinidog neu Alun Charles**

## CYDYMDEIMLAD

Cydymdeimlwn â Gareth a Rhian Gravell ar golli mam Rhian a mam-gu Teleri a'i phriod Nic a hen fam-gu Jac a Tom, sef Beryl Jenkins, Cefneithin, ar Ddydd Sul, 4 Mehefin 2023.  Cofiwn am y teulu cyfan yn eu hiraeth a'u galar.

Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd â Carys a Gareth Augustus a Cadi Wyn, Hedd ac Ilan ar golli mam-gu Carys a hen fam-gu'r plant, sef Dilys Morgan, Llanymddyfri ar 29 Mai 2023.  Meddyliwn am y teulu cyfan yn eu colled.

Cydymdeimlwn yn ogystal â Gwynn ac Ann Bowyer ar golli chwaer Gwynn, sef Mair Gibbard, Pwllheli, gweddw'r diweddar Barchedig R Hedley Gibbard, cyfieithydd arloesol, a mam Gwenan, y delynores a'r gantores adnabyddus, a Dafydd, Prif Weithredwr Gwynedd, ar Ddydd Sul 25 Mehefin 2023.  Cofiwn am y teulu cyfan yn eu hiraeth a'u colled.

## DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn, Betsan James a Meilyr Gruffudd am y lluniau'r mis hwn.

| CWIS Y SALMAU - beibl.net - ATEBION | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | modd | 6 | eistedd |
| 2 | Jerusalem | 7 | Dafydd |
| 3 | ynddi | 8 | waliau |
| 4 | bererindod | 9 | gweddïo |
| 5 | diolch | 10 | gofyn |
| Gallwch hefyd droi at beibl.net | | | |



# Y SULIADUR



| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gorffennaf** | **2** | ***Bore*** <br> ***P'nawn*** | Ein Gweinidog <br> Gŵyl Hirddydd Haf ym Mharc y Dref am 4.30 | **C** |
| | **9** | | Sul y Cyfundeb <br> *Manylion y tu mewn* | |
| | **16** | ***Bore*** <br> ***Hwyr*** | Y Parchedig Andrew Lenny <br> Rihyrsal ar gyfer y Gymanfa Ganu yng Nghapel Penygraig gyda Helen Gibbon am 5 | |
| | **23** | ***Bore*** | Ein Gweinidog | |
| | **30** | ***Bore*** | Capeli'r Dref yn cydaddoli yn y Tabernacl am 10.30 gyda'r Parchedig Andrew Lenny | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Medi** | **3** | ***Bore*** | Cwrdd Plant gyda'n Gweinidog | **C** |
| | **10** | ***Bore*** <br> ***P'nawn*** <br> <br> ***Hwyr*** | Ein Gweinidog <br> Cwrdd Pregethu Heol Awst am 3.30 gyda'r Parchedig Andrew Lenny <br> Rihyrsal ar gyfer y Gymanfa Ganu yng Nghapel Penygraig gyda Helen Gibbon am 5 | |
| | **17** | ***Bore*** | Ein Gweinidog | |
| | **24** | ***Bore*** <br> ***Hwyr*** | Ein Gweinidog <br> Cymanfa Ganu Undebol Caerfyrddin a'r Cylch yng Nghapel Penygraig, Croesyceiliog am 5. Manylion y tu mewn | |

| **CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **✓ Ysgol Sul   PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul   CP – Cwrdd Plant** <br> **OD – Oedfa Deulu   SS- Sul Sbesial** | | | | | | | | |
| **Gorffennaf** | | | | | **Medi** | | | |
| **2** | **9** | **16** | **23** | **30** | **3** | **10** | **17** | **24** |
| **✓ / PIP** <br> **Parti Diwedd Tymor** | **SS** | **-** | **-** | **-** | **CP** | **✓** | **✓** | **✓** |

**Rhyddheir oedfa ddigidol bob Sul**

**Cofiwch am Ŵyl Canol Dre (Parc Myrddin) ar 8.7.23 (11am-8pm)**
**Bydd Stondin gan y Priordy yno!**